SWYDDOGOL

Independent Office for Police Conduct

PO Box 473
Sale M33 0BW

Blwch Post 473
Sale M33 0BW

**Tel/Ffôn:** 0300 020 0096
**Email/E-bost:** enquiries@policeconduct.gov.uk

6 Mehefin 2023

**Siarter i deuluoedd mewn profedigaeth trwy drychineb gyhoeddus**

Wrth fabwysiadu'r siarter hon rwy'n ymrwymo i sicrhau bod Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) yn dysgu gwersi o drychineb Hillsborough a'i chanlyniadau, fel nad yw persbectif y teuluoedd mewn profedigaeth yn cael ei golli.

Rwy'n ymrwymo i SAYH ddod yn sefydliad sy'n ymdrechu i:

1. Mewn achos o drasiedi gyhoeddus, rhoi ei gynllun argyfwng ar waith a defnyddio ei adnoddau i achub dioddefwyr, i gynorthwyo'r rhai mewn profedigaeth ac i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

2. Rhoi lles y cyhoedd uwchben ein henw da ein hunain.

3. Mynd i'r afael â mathau o graffu cyhoeddus – gan gynnwys ymchwiliadau cyhoeddus a chwestau – gyda gonestrwydd, mewn ffordd agored, onest a thryloyw, gan ddatgelu dogfennau, deunydd a ffeithiau perthnasol yn llawn. Ein hamcan yw cynorthwyo i chwilio am y gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o ganfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.

4. Osgoi ceisio amddiffyn yr anamddiffynadwy na diystyru neu fychanu'r rhai a allai fod wedi dioddef lle rydym wedi methu.

5. Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin y cyhoedd a'i gilydd â pharch a chwrteisi. Pan fyddwn yn methu, dylem ymddiheuro'n syml ac yn ddiffuant.

6. Cydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i her. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi'r cyhoedd i'n dwyn i gyfrif am y gwaith a wnawn ac am y ffordd rydym yn ei wneud. Nid ydym yn fwriadol yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau.

Thomas Whiting

**Tom Whiting**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro**
**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**

*Sylwch: nid yw SAYH yn sefydliad ymateb brys, ond bydd yn cymhwyso'r Siarter ar draws pob agwedd o'i waith.*